

JONES, JOHN ('Humilis '; 1818 - 1869), gweinidog Wesleyaidd, golygydd, cyfieithydd, ac awdur

Enw: John Jones

Ffugenw: Humilis

Dyddiad geni: 1818

Dyddiad marw: 1869

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog Wesleyaidd, golygydd, cyfieithydd, ac awdur

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Ray Looker

Ganwyd yn Llantrisant, Morgannwg; dechreuodd bregethu cyn bod yn 20 oed; aeth i goleg Didsbury, a dechreuodd deithio yn 1843. Ef oedd golygydd yr *Eurgrawn Wesleyaidd* rhwng 1849 ac 1851. Ysgrifennodd ar amrywiol bynciau, ac ymhlith ei waith cyhoeddiedig ceir cyfieithiad o lyfr W. Arthur, *The Successful Businessman*, 1853, *Darlith ar Rwsia a'i Rhyfel*, 1854, *Traethawd ar Dwrci, a Hanes Bywyd Nicholas o Rwsia*, 1855, *Bywgraffydd Wesleyaidd*, 1866, a'r *Chwedleuydd*, 1868. Cyhoeddwyd erthyglau ganddo yn *Y Traethodydd*, 1855-69. Bu farw 13 Mawrth 1869 yng Nghaerdydd.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

H. Blackwell, [NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

Yr Eurgrawn Wesleyaidd, 1869, 204, a 1909, 7, 326

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733518](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

